# EVANS, OWEN (1829 - 1920), gweinidog Annibynnol ac awdur



**Enw:** Owen Evans
**Dyddiad geni:** 1829
**Dyddiad marw:** 1920
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 19 Tachwedd 1829 yn Penybontfawr, Sir Drefaldwyn. Hanai o deulu crefyddol iawn - yr oedd yn gâr i Ann Griffiths o ochr ei fam. Bu'n dilyn crefft ffatrïwr yn ifanc. Daeth yn aelod crefyddol yn Llanfyllin pan oedd yn 16 oed. Bu yn yr ysgol gyda ' Ieuan Gwynedd ' am ysbaid ac yn cadw ysgol yn yr un man yn ddiweddarach. Dechreuodd bregethu yn Llanfyllin, a bu'n gweinidogaethu yn Berea, Môn, 1853-4; Maentwrog, 1854-6; Fetter Lane, Llundain, 1856-63; Brymbo a Wrecsam, 1863-7; Llanbrynmair, 1867-81; Fetter Lane (eilwaith) gyda King's Cross, 1881-1906. Ymddeolodd o'r weinidogaeth yn 1900 a bu'n preswylio yn Lerpwl, 1901-18, a Llundain, 1918-20. Derbyniodd flwydd-dâl o'r ' Civil List ' yn 1920. Bu'n gadeirydd Undeb yr Annibynwyr yn 1887.

Darlithiodd lawer ar y Beibl a throes rai o'i ddarlithiau yn gyfrolau argraffedig - e.e. *Gwyrthiau Crist*, 1868; *Dammegion yr Arglwydd Iesu*, 1873; *Oriau gyda'r Iesu*, 1882; *Merched yr Ysgrythyrau a Sêr y Dwyrain*, 1886; *Geiriau Olaf Iesu Grist*, 1887; *Yr Aberthau*, 1889; *Bywgraffiadau'r Beibl a Phregethau Eraill*, 1899. Nid oedd yn bregethwr huawdl fel rhai o'i gyfoeswyr, ac ni ragorai mewn arddull lenyddol yn ei weithiau. Bu farw 1 Mehefin 1920.

Brodyr iddo oedd David Evans (1842 - 1914) a Thomas Evans (1844 - 1922).

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau

*Y Tri Hyn sef y Parchedigion Owen Evans, D.D., Llundain, David Evans, Caerfyrddin, Thomas Evans, Amlwch* (1931)

*Y Dysgedydd*, Gorffennaf 1920

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734057

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu